# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 6 Mawrth, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd Bob Parry OBE – Is-Gadeirydd yn y Gadair<br><br>Y Cynghorwr John Griffith, Derlwyn R. Hughes, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, Carwyn Jones, H. Eifion Jones. |
| **WRTH LAW** : | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Cymuned,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Aled M. Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL** : | Dim |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2014.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-**

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Gwasanaethau OedolionHead of Adults Services**
**Cyflog : oddeutu £70,000**

2 ymeisydd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd uchod. Roedd 1 ymgeisydd wedi tynnu ei chais yn ôl cyn y cyfweliad.

Yn dilyn cyfweliad yr 1 ymgeisydd oedd ar y rhestr fer ac ar ôl derbyn asesiad Grwp Hay **PENDERFYNWYD apwyntio Mr. Alwyn Rhys Jones i'r swydd uchod o ddyddiad i'w gytuno arno.**

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY OBE**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**